

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

01.07.2020

Annwyl Riant/Ofalydd.

Fel yr addewais, rwy'n ysgrifennu i egluro argaeledd darpariaeth gofal plant (am ddim a gyda thâl) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y misoedd nesaf. Rwy'n gwerthfawrogi y bu llawer o newid a gwahanol wybodaeth dros y misoedd diwethaf.

Beth sydd ar gael i blant 0-4 oed tan 31 Awst?

Bydd modd i blant 4 oed ac iau gael mynediad at ofal plant preifat am ddim tan 31 Awst drwy Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws. Bydd angen i rieni/ofalyddion gyflwyno cais a darparu tystiolaeth o'u statws gweithwyr allweddol a thysiolaeth am bob oedolyn yn yr aelwyd am fethu â gweithio gartref drwy'r ffurflen gais ar-lein <https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/Covid-19-Childcare-provision?lang=cy-gb>. Bydd y cynllun yn cau **10 Gorffennaf 2020** ar gyfer ceisiadau newydd.

Beth sydd ar gael i blant hŷn tan 31 Awst 2020?

Wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith, ac eraill sy'n darparu gofal plant yn parhau i warchod a bod yn agored i niwed, mae pwysau cynyddol wedi bod ar yr awdurdod i ddarparu ar gyfer disgyblion, yn enwedig yn ystod y cyfnod ysgol cynradd. Mae 'hybiau' wedi bod yn llwyddiannus iawn, ond daethon nhw i ben ddydd Gwener, 26 Mehefin 2020. Agorodd ysgolion ddydd Llun 29 Mehefin a rhaid iddyn nhw gadw lleoedd ar gyfer plant y gweithwyr allweddol sydd mewn angen brys yn ogystal â disgyblion sy'n agored i niwed. Dim ond 30% o'r disgyblion sy'n cael bod ar safle'r ysgolion ar unrhyw adeg ar hyn o bryd, felly, mae'n hanfodol bod lleoedd gofal plant yn cael eu dyrannu os yw'n hollol hanfodol oherwydd mae athrawon eisiau cynnal sesiynau gyda chymaint o ddisgyblion â phosibl. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen cyfyngu ar nifer y diwrnodau sydd ar gael ar gyfer gofal plant. Yn yr achos yma, bydd y Pennaeth yn cysylltu â rhieni er mwyn rhoi cyngor.

Pan fydd ysgolion yn gorffen ar 17 Gorffennaf 2020, yna bydd egwyl o wythnos cyn i'n rhaglen haf yn cychwyn. Mae hyn yn cael ei gynghori er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo, wrth i blant symud o un lleoliad i un arall.

Er nad yw Lywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol drefnu gofal plant i blant gweithwyr allweddol trwy'r haf, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi penderfynu cynnig bloc pythefnos i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Cysylltir â rhieni sydd eisoes wedi derbyn cynnig o le mewn hwb, ac sy'n diwallu'r meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer y rhaglen haf, gyda manylion y cynnig erbyn dydd Mercher 8 Gorffennaf 2020.

Gallwch hefyd drefnu gofal plant gyda darparwyr gofal plant cofrestredig trwy wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD).
<https://your.caerphilly.gov.uk/fis/family-zone>. Bydd modd i chi drefnu eich anghenion gofal plant a gwneud trefniad preifat gyda'r darparwr.

Medi 2020

Rydyn ni'n aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru, ond rydyn ni eisiau eich cynorthwyo chi i ddod o hyd i ddatrysiadau tymor hir ar gyfer eich anghenion gofal plant.

Mae modd i blant 0-10 oed gael mynediad at ofal plant, gan gynnwys darpariaeth cofleidiol drwy ddarparwyr gofal plant cofrestredig preifat. Efallai y bydd rhywfaint o gymorth ar gael os yw'r plant yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant (plant 3-4 oed mewn ysgol ran-amser i rieni sy'n gweithio), Dechrau'n Deg (plant 2-3 oed sy'n byw mewn ardaloedd penodol ar gyfer darpariaeth ran-amser), neu trwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth ar gyfer plant o bob oedran. Mae modd i chi ystyried pa opsiwn sydd orau i chi drwy'r wefan CThEM <https://www.childcarechoices.gov.uk/>. Gellir dod o hyd i fanylion yr holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig a chymorth o ran costau hefyd ar wefan GGD <https://your.caerphilly.gov.uk/fis/family-zone/support-costs>.

Wrth i ddiwedd tymor heriol iawn agosáu, hoffwn ddiolch i chi am eich holl amynedd a'ch cymorth yn ystod y broses ymgeisio a gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi wrth wneud y dewisiadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud.

Yn gywir,

Keri Cole

Prif Swyddog Addysg, CBS Caerffili.